



Cyfarfod Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru

**Ystafell Bwyllgor A, Cyngor Sir Powys,
Neuadd y Sir, Llandrindod
Dydd Gwener 8 Ionawr 2016**


Yn bresennol:



Y Cyngorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion (**Cadeirydd**)
Susan Bolter, Cyngor Sir Powys
Carl Cooper, PAVO
Hywel Davies, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (yn cynrychioli Dr. Jane Davidson)
Steve Doodson, Pennaeth NPTC Campysau Powys
Ann Elias, Cyngor Sir Ceredigion
Paul Griffiths, Cyngor Sir Powys
James Harrison, Cadeirydd, Fforwm Economaidd Canolbarth Cymru
Keith Henson, yn cynrychioli Jacqui Weatherburn, Coleg Ceredigion ac Ardal Twf Lleol Dyffryn Teifi
Russell Hughes-Pickering, Cyngor Sir Ceredigion
Aled Jones, FUW Swyddog Gweithredol Sirol Brycheiniog a Maesyfed
John Jones, Llywodraeth Cymru
Eirlys Lloyd, Cyngor Sir Ceredigion
Elid Morris, Rheolwr Partneriaeth Dysgu Rhanbarthol
Huw Morgan, Cyngor Sir Ceredigion
Gareth Price, Cadeirydd, Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru
Gary Reed, Prifysgol Aberystwyth
Mike Shaw, Cyngor Sir Ceredigion
Ceri Stephens, Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru a Chadeirydd Siambr Fasnach Canolbarth Cymru
Y Cyngorydd Barry Thomas, Arweinydd Cyngor Sir Powys (Is-gadeirydd)
Ann Watkin, Llywodraeth Cymru
Nia Williams, Cydweithrediaeth Iechyd Canolbarth Cymru
Y Cyngorydd Avril York, Daliwr Portffolio Adfywio a Chynllunio


Yn bresennol drwy wahoddiad:

Melanie Hardwick, Cyngor Sir Powys (cymryd cofnodion)
Gill Hamer, Cyfarwyddwr, Partneriaeth Menter Leol y Gororau
Seren Jones, Cynorthwydd Personol i'r Cyfarwyddwyr, Cyngor Sir Ceredigion
Graham Wynn, Cadeirydd, Partneriaeth Menter Leol y Gororau

1.	Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau Estynnodd y Cyngorydd Ellen ap Gwynn groeso i bawb i'r cyfarfod gan wneud y cyflwyniadau. Cafwyd ymddiheuriadau gan:	
----	--	--

	<p>Dr Jane Davidson, Prifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant Paul Evans, Arweinydd Busnes ar Fwrdd Rhaglen Cymunedau Cryfach Powys Jack Evershed, Cadeirydd Cydweithrediaeth Iechyd Canolbarth Cymru Sue Fish, Cydweithrediaeth Iechyd Canolbarth Cymru Dr Ruth Hall, Cadeirydd Cydweithrediaeth Iechyd Canolbarth Cymru Peter Howells, NFU Doug Hughes, Cadeirydd, Ardal Twf Lleol y Drenewydd a Chynrychiolydd Ardaloedd Twf Powys Gyfan Mared Rand Jones, FUW Swyddog Gweithredol Sirol Ceredigion Y Cynghorydd Gareth Lloyd, Cyngor Sir Ceredigion, Aelod Cabinet ar gyfer Adfywio Hazel Lloyd-Lubran, CAVO Arwyn Watkins, Cynrychiolydd Etholedig y Bartneriaeth Dysgu Rhanbarthol Jacqui Weatherburn, Coleg Ceredigion ac Ardal Twf Lleol Dyffryn Teifi</p>	
2.	<p>Cofnodion y cyfarfod</p> <p>Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 28 Medi 2015 yn gofnod cywir.</p>	
3.	<p>Cynllun Gweithredu sy'n Datblygu</p> <p>Rhoddodd Mike Shaw ddiweddariad ar gynnydd y Cynllun Gweithredu drafft y mae copi ohono wedi'i atodi i'r cofnodion er gwybodaeth.</p> <p>Yn ystod y drafodaeth, cyfeiriwyd yn benodol at y canlynol:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn dal i aros am wybodaeth am Iechyd a Gofal Cymdeithasol • Gwybodaeth yn parhau i gael ei hychwanegu at y cynllun. Os yw partneriaid heb roi eu mewnbwn eto, rhaid iddynt wneud hynny cyn gynted â phosibl. • Mae'r Cynllun Gweithredu yn waith ar y gweill ac yn cael ei adolygu'n gyson. • Y gobaith oedd y byddai'r Cynllun Gweithredu yn cael ei gytuno a'i gwblhau yn y cyfarfod nesaf. Yna byddai'n ddogfen 'fyw'. • Byddai gosod amserlen i gael gwybodaeth gan bartneriaid yn ddefnyddiol. • Dylai 'Cyflenwad Tai' gael ei gynnwys gyda'r cynllun. • Prentisiaethau: Nodwyd bod terfyn ar y cyllid gan Lywodraeth Cymru. Angen hyrwyddo prentisiaethau i bobl ifanc yn ogystal ag unigolion hŷn. Angen gweithio'n agos â gyrfaedd ac ysgolion i sicrhau bod pobl ifanc yn cael y cyfarwyddyd a'r cyngor cywir. Angen cydweithio'n agos â nhw i sicrhau bod pobl ifanc yn ymwybodol o brentisiaethau a pha gymwysterau y mae eu hangen arnynt i gael swyddi penodol. John Jones, Llywodraeth Cymru wedi cytuno i edrych ar effaith 'Ardoll Brentisiaethau' yr Adran Busnes Arloesi a Sgiliau. Nodwyd bod y cyllid yn cael ei dderbyn o San Steffan i Lywodraeth Cymru. • Angen tynnu sylw at addysg bellach o fewn y Cynllun Gweithredu. • Band eang: Mae cyflwyno band eang cyflym iawn yn parhau yng Ngheredigion ac erbyn hyn mae ardaloedd eang yn gallu prynu gwasanaeth band eang cyflym iawn. Mae'r gwaith yn mynd yn ôl y disgwyl ym Mhowys. Mae'r wefan ryngweithiol http://www.superfast-cymru.com yn rhoi llawer o wybodaeth. Mae cyflwyno'r gwasanaeth wedi cael cyllid ychwanegol ac wedi cael ei estyn. Mae heriau'n parhau ar gyfer yr ardaloedd mwy gwledig ac anghysbell ond gall cynllun Allwedd Band Eang Cymru Llywodraeth Cymru fod ar gael. 	<div style="text-align: right;">  Action Plan 2nd Draft (January)2.docx </div> <p style="text-align: center; font-weight: bold; font-size: 1.2em;">ALL</p> <p style="text-align: center; font-weight: bold; font-size: 1.2em;">JJ</p>

	<ul style="list-style-type: none"> • Cwmpas Signal Ffôn: Nodwyd bod cwmpas ffonau symudol ar draws yr ardal yn broblem. • Cyfrifiadureg: Nodwyd bod rhai cwmnïau yn ei chael hi'n anodd i recriwtio'n lleol i swyddi yn y sector hwn. Mae nifer fawr o fyfyrwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth yn graddio gyda'r sgiliau hyn. • Roedd y cyrsiau a gynigir yng Ngholeg NPTC y Drenewydd yn cynnwys BTEC lefel 3 mewn peirianeg ynghyd â sgiliau llythrennedd/rhifedd/Bagloriaeth Cymru. <p>Mynegwyd siom nad oedd y Cynllun Gweithredu wedi'i ddatblygu ymhellach.</p>	
4.	<p>Partneriaeth Menter Leol y Gororau</p> <p>Estynnodd y Cadeirydd groeso i Gill Hamer, Cadeirydd Partneriaeth Menter Leol y Gororau a Mr Graham Wynn, Cadeirydd Partneriaeth Menter Leol y Gororau i'r cyfarfod. Mae copi o'r cyflwyniad wedi'i atodi i'r cofnodion er gwybodaeth.</p> <p>Rhoddodd y cyflwyniad sylw i'r cefndir i'r Partneriaethau Menter Leol, y Cynllun Economaidd Strategol, Prosiectau'r Bartneriaeth Menter Leol, Llywodraethu a'r Heriau Economaidd Cyffredin.</p> <p>Rhoddodd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ddiolch i Gill a Graham am eu cyflwyniad hynod diddorol a gwybodus.</p>	 <p>20160108 Growing Mid Wales.pdf</p>
5.	<p>Trafnidiaeth Strategol - Diweddariad</p> <p>Cafwyd diweddariad ar Drafnidiaeth Ranbarthol Strategol gan Ann Elias (atodedig).</p> <p>Yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd yn benodol at y canlynol:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yr amcangyfrif o gynnydd o 43% yn nifer y teithwyr ar Reilffordd y Cambrian. • Adroddiad newydd wedi'i gyhoeddi sy'n nodi mai £750 miliwn fydd y gost i ailagor y Rheilffordd o Gaerfyrddin i Aberystwyth. • Llywodraeth Cymru yn rhyddhau ei hymgyrch cyhoedduswydd newydd ar gyfer system Metro Caerdydd sydd i'w gweithredu dros yr 8 mlynedd nesaf a thu hwnt. • Dylai'r trefniadau masnachfaint newydd a gadarnhawyd gan yr Adran Drafnidiaeth ar gyfer West Midlands Rail a'r Northern and Trans Penine Express osod safon ar gyfer masnachfaint newydd Cymru a'r Gororau. • Bydd rhaglen garlam HS2 yn gweld cysylltiad i Crewe 6 mlynedd yn gynharach na'r disgwyl erbyn 2027. Amcangyfrifir y bydd £755m yn dod i Gymru o dan Fformiwla Barnett. • Gogledd Cymru yn cynnal uwchgynhadledd rheilffyrdd i ddangos i weinidog y DU sy'n gyfrifol am y rheilffyrdd fod gweithio mewn partneriaeth ar draws ardal Gogledd Cymru yn cadarnhau bod Cymru a Lloegr yn awyddus i gael yr un peth. • Pwyllgor Menter a Busnes Llywodraeth Cymru yn galw am dystiolaeth ynghylch y rheilffyrdd ac a ddylai Cymru reoli cyllid ar gyfer rheilffyrdd yng Nghymru. • Mae dyfodol Bwcabus yn y fantol wrth i gyllid gael ei geisio i barhau ac estyn y prosiect. • Mae ystadegau cludo nwyddau'r Adran Drafnidiaeth yn dangos bod mwy o gerbydau cymalog a faniau ysgafn ar ein ffyrdd. 	 <p>Transport Update.docx</p>

	<ul style="list-style-type: none"> • Cwmpas ffonau symudol yng Nghanolbarth Cymru: Mike Shaw i lunio adroddiad diweddarau ar gyfer y cyfarfod nesaf. Wedi'i atodi i'r cofnodion mae llythyr ar y cyd a anfonwyd gan Gyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys at y Gwir Anrhydeddus John Whittingdale AS ynghylch cwmpas ffonau symudol yng Nghanolbarth Cymru. Mae Cyngor Gwynedd wedi anfon llythyr tebyg hefyd. Ni chafwyd unrhyw ymateb hyd yma. • Cynllun Gweithredu: Cytunwyd i gynnwys cynlluniau ffyrdd yn y Cynllun Gweithredu. • Grŵp Swyddogion Trafnidiaeth (y Gororau): Byddai croeso i Anne Elias fynychu'r cyfarfod nesaf o'r Grŵp. • Cyngor Henffordd: Nodwyd bod cynllun gan Gyngor Henffordd yn ei le/cais twf ynghylch gwaith ar Gylchffordd De Gwy. • Connect Midlands: Ann i gael gwybodaeth am hyn. • Rheilffordd Aberystwyth i Gaerfyrddin: Cefnogaeth weinidogol i fywiogi'r rhwydwaith Cymru gyfan a Rheilffordd y Cambrian. Mae nifer o bobl o Ganolbarth Cymru yn teithio i Gaerdydd. • Trafnidiaeth Gymunedol: mae 19 o gynlluniau trafndiaeth gymunedol ym Mhowys. Mae rhwydwaith llai yng Ngheredigion. Cytunwyd i weithio gydag Ann ar faterion Trafnidiaeth Gymunedol. • Masnachfaint Rheilffordd Gorllewin Canolbarth Lloegr: Adroddodd Paul Griffiths fod llythyr wedi cael ei dderbyn gan y Prif Weithredwr oddi wrth Fasnachfaint Rheilffyrdd Gorllewin Canolbarth Lloegr - cytunwyd y dylid ei gynnwys yn y rhaglen waith. TOGG Group a Midlands Connect yn rhan o'r gwaith ar y mater hwn. • Cwmpas Ffonau Symudol: Cael rhwydweithiau i rannu mastiau. Angen gweithredu cryfach gan y Llywodraeth. Adroddodd y Cadeirydd fod gwasanaeth trawsrwydweithio ar gael pan fyddwch yn teithio dramor a'i fod ar gael hefyd i ymwelwyr i'r wlad hon, ond ni allwn ei gael yn y DU. • Dosbarthu Nwyddau: Angen cyflwyno achos i'r Llywodraeth dros sicrhau bod modd dosbarthu ein nwyddau trwy ein rhwydweithiau ffyrdd/rheilffyrdd. <p>Croesawodd yr Is-gadeirydd yr adroddiad gan nodi ei fod yn braf iawn gweld y gwaith yn mynd rhagddo ym maes trafndiaeth, a byddai swyddog o'r Bartneriaeth yn mynychu cyfarfodydd Grŵp Swyddogion Trafnidiaeth y Gororau yn y dyfodol.</p>	 <p>soniat-20151223-15 8.pdf</p>
6.	<p>Ymgysylltu Rhanbarthol - Diweddariad</p> <p>Cafwyd diweddariad gan Mike Shaw ar Ymgysylltu Rhanbarthol. Mae copi o'r cyflwyniad wedi'i atodi i'r cofnodion er gwybodaeth.</p> <p>Yn ystod y drafodaeth, cyfeiriwyd yn benodol at y canlynol:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pwyntiau allweddol: <ol style="list-style-type: none"> a. Nid yw unrhyw gynigion rhanbarthol wedi cael eu cymeradwyo eto - felly nid yw cyllid wedi'i gyflenwi eto. b. Rôl a phwrpas wedi'i lansio a'i gydnabod yn ffurfiol erbyn hyn, yn arbennig gwerth cael ffocws rhanbarthol ar ddarpariaeth ar y cyd a chael canlyniadau gwell. c. Mae gwaith ar y gweill ac mae llawer i'w wneud dros y misoedd nesaf. • Cynnydd ar y cais am gyllid 	 <p>Regional Engagement Preser</p>

	<ul style="list-style-type: none"> • Lansio a chynabod rôl • Cynnydd ar raglenni • Gweithrediadau ERDF wedi'u cymeradwyo • Gweithrediadau ERDF sy'n datblygu • Gweithrediadau Cronfa Gymdeithasol Ewrop wedi'u cymeradwyo • Cronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n datblygu • Gwaith ar gyfer y chwarter nesaf 	
7.	<p>Cais am Gymorth gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru</p> <p>Cafwyd cais am gymorth gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru am gynnig Cymru gyfan ar gyfer statws Ardal Entrepreneuriaidd Ewropeaidd. Mae'r statws yn dod â chydabyddiaeth i Gymru, yn cyfrannu at weithgareddau 'Cymru yn Ewrop' ac yn cynnig cyfle i hyrwyddo entrepreneuriaeth. Cynigion i'w cyflwyno ym Mawrth 2016. Trafodaethau yn parhau i ddatblygu'r cais. Gweithgor bach i'w sefydlu a bydd y 4 ardal yn cymryd rhan. Digwyddiad briffio i'w gynnal ym Mrwsel ar ddiwedd Ionawr.</p> <p>Yn dilyn trafodaeth cytunodd y grŵp, mewn egwyddor, i gymeradwyo'r cais.</p> <p>Cytunodd Mike Shaw i gylchredeg gwybodaeth bellach i'r Grŵp er mwyn gallu trafod y mater ymhellach.</p> <p>Cytunwyd i gael cyflwyniad yn y cyfarfod nesaf gan Lywodraeth Cymru ar entrepreneuriaeth ieuenctid / REAP.</p>	<p>MS</p> <p>AW</p>
8.	<p>Unrhyw Fater Arall</p> <p>a. Cyfraniad Busnesau</p> <p>Nododd y Cadeirydd na chafwyd unrhyw enwebiadau gan Ffederasiwn Busnesau Bach Powys neu Geredigion gan atgoffa Aelodau y dylai enwebiadau gael eu cyflwyno cyn gynted â phosibl.</p> <p>b. Cyfarfod ynghylch cyflwr yr economi amaethyddol</p> <p>Dywedodd y Cadeirydd ei bod hi wedi mynychu cyfarfod yn ddiweddar, drwy wahoddiad gan Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin, i drafod cyflwr yr economi amaethyddol (yn arbennig y sector llaeth ac oen) i drafod beth y byddai'r awdurdodau yn ei wneud i helpu'r economi wledig. Roedd y cyfarfod wedi cynnwys Arweinwyr o Gyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Sir Ceredigion.</p> <p>Adroddodd y Cadeirydd ei bod hi wedi gofyn i Gyngor Sir Powys fod yn bresennol. Cytunodd i godi hwn eto.</p>	
9.	<p>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf 26 Ebrill 2016.</p>	